HSCCLD28

Cefnogi cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau unigolion

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn amlinellu’r gofynion wrth gefnogi a diogelu hawliau unigolion. Mae'n cynnwys cefnogi unigolion i ddefnyddio eu hawliau a pharchu hawliau pobl eraill, meithrin diwylliant sy'n seiliedig ar hawliau ac sy'n gwerthfawrogi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Mae hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd camau sy'n hybu ymddiriedaeth a hyder wrth gynnal yr hawliau hyn.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cynorthwyo unigolion i ddeall a mynegi eu hawliau, eu gwerthoedd, eu diwylliant, eu hysbrydolrwydd a'u dewisiadau
2. sicrhau bod unigolion yn gallu cael gafael ar y cymorth cyfathrebu neu eiriolaeth sydd ei angen arnynt
3. cefnogi hawliau unigolion i gyfathrebu yn eu dewis iaith a dull cyfathrebu
4. gwrando ac ymateb mewn ffyrdd sy'n dangos eich bod yn gwerthfawrogi ac yn parchu hawliau, gwerthoedd, diwylliant, ysbrydolrwydd a dewisiadau unigolion
5. cynorthwyo unigolion i wneud dewisiadau a phenderfyniadau gwybodus am eu bywydau a'u llesiant ac i gymryd risgiau cadarnhaol
6. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i nodi a chael gafael ar adnoddau a chymorth i gwrdd â'u dewisiadau a'u hanghenion
7. cefnogi hawliau unigolion i gael gafael ar wybodaeth a gedwir amdanynt ac i wneud sylwadau a chwynion
8. sicrhau bod hawliau, gwerthoedd, diwylliant, ysbrydolrwydd a dewisiadau unigolion wrth wraidd pob gweithred a phenderfyniad
9. cefnogi unigolion i ddefnyddio eu hawliau ac i barchu hawliau pobl eraill
10. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion i'w cefnogi i fynd i'r afael â heriau i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant
11. cyfrannu at gofnodion ac adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau unigolion
12. myfyrio ar sut y gwnaethoch gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau i hybu cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau unigolion, gydag adborth gan eraill

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. beth yw nodweddion gwarchodedig
2. y gwahanol fathau o wahaniaethu a’r effaith ar gydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau unigolion
3. effeithiau posibl stigma, stereoteipio, rhagfarn a labelu ar unigolion
4. pwysigrwydd defnyddio ffyrdd o weithio i gefnogi cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau unigolion wrth gyfathrebu
5. sut mae cefnogi rheoleiddio emosiynol wrth fynegi hawliau, gwerthoedd, diwylliant, ysbrydolrwydd a dewisiadau
6. pwysigrwydd eiriolaeth a dehonglwyr i gefnogi cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau, a sut i gael gafael arnynt
7. y mathau o ddyfeisiau ac adnoddau digidol a all gefnogi cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau unigolion
8. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol ar gydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau unigolion
9. sut mae defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma i gefnogi cydraddoldeb, amrywiaeth, chynhwysiant a hawliau unigolion
10. pwysigrwydd urddas, caredigrwydd a thosturi wrth gefnogi cydraddoldeb, amrywiaeth, chynhwysiant a hawliau unigolion
11. sut mae grymuso unigolion i ddefnyddio eu hawliau a pharchu hawliau pobl eraill
12. dylanwad diwylliant, cefndir ac ysbrydolrwydd ar gydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau unigolion
13. y cofnodion a’r adroddiadau sydd eu hangen i gefnogi cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau unigolion
14. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a’r canllawiau perthnasol ar gyfer cefnogi cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau unigolion
15. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau
16. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill i gefnogi cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau unigolion
17. sut mae eich profiadau personol a’ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth gefnogi cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau unigolion, a sut i

fynd i'r afael â hyn
18. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth gefnogi cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau unigolion

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

Cefnogi cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau unigolion

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD28 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Cydraddoldeb, Amrywiaeth, Cynhwysiant, Hawliau, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |